Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Nant Dyrys / Ynyswen

Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen
Clinic Road
Ynyswen
Treorci
CF42 6ED

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Nant Dyrys / Ynyswen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Nant Dyrys / Ynyswen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Helen Biggs |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Helen Biggs |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 24 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 – 15:00 dydd Llun – ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn ymdrechu'n sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 20 Mehefin 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/07/2024 |
| Ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi lle siaradir Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn holi'r plant yn effeithiol er mwyn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain a datblygu eu syniadau ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â manteisio ar ddiddordeb plant ar y pryd i annog chwilfrydedd a mwynhad plant yn eu dysgu, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae gan blant lais cryf iawn yn y lleoliad ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol. Maent yn hyderus wrth arbrofi ag amrywiaeth eang o adnoddau diddorol sy'n sbarduno eu chwarae, yn tanio eu dychymyg ac yn datblygu eu syniadau a'u medrau. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn gan ddangos medrau annibyniaeth rhagorol. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, gan wybod bod ymarferwyr yn gwrando arnynt.

Mae gan blant ymdeimlad cryf iawn o berthyn i'r lleoliad. Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus a chyffrous ac yn gwahanu'n dda oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn ysu i gyrraedd yn y bore gan wenu a chofleidio ymarferwyr cyfarwydd. Mae plant yn gyfarwydd â threfn a disgwyliadau, sy'n eu helpu i ymgartrefi'n gyflym ac i deimlo'n ddiogel. Mae bron bob plentyn yn datblygu perthynas agos a chynnes ag ymarferwyr ac yn ymateb yn eiddgar wrth iddynt ymuno yn eu chwarae. Mae'r ychydig iawn o blant sy'n ei chael hi'n anodd gadael rhieni neu ofalwyr yn setlo'n syth wrth gael eu cefnogi gan ymarferwyr sydd yn diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'r plant yn hyderus a chyfforddus wrth ofyn am gymorth, er enghraifft i dywallt dŵr i'r twba mawr yn y gegin fwd, ac wrth chwilota am adnoddau addas i'w helfa dinosoriaid.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn arbennig o dda o ystyried eu hoedrannau a'u camau datblygiad. Maent yn cyd-chwarae ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn llwyddiannus dros ben. Maent yn ymgymryd â thasgau o'u dewis ac yn dangos medrau cymdeithasol aeddfed wrth gynnig helpu cefnogi ei gilydd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r plant yn helpu ei gilydd i wisgo ffedog cyn paratoi bwydydd Mecsicanaidd ac yna'n rhannu toes i wneud 'fajita'.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth chwarae, yn enwedig pan fyddant yn dilyn eu syniadau eu hunain ac yn arbrofi ag adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfleoedd dysgu cyffrous sy'n eu galluogi i ddysgu, archwilio a darganfod yn llwyddiannus iawn. Mae bron bob plentyn yn dangos hyder cynyddol wrth symud o gwmpas y lleoliad a dewis adnoddau. Maent yn archwilio'u hamgylchedd yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn rhydd. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am amser cynyddol wrth beintio siapau rhifau a llythrennau, ac yn dangos brwdfrydedd a mwynhad wrth wrando ar storïau a chaneuon Cymraeg. Mae plant yn canolbwyntio am amser estynedig gan ddangos amynedd a dyfalbarhad wrth dorri llysiau i wneud cawl gyda chyfarpar cegin ac adnoddau naturiol.

Mae bron bob plentyn yn ymchwilio'n hyderus ac yn dangos parodrwydd i roi cynnig ar weithgareddau newydd drostynt eu hunain. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u hamgylchedd ac yn dangos lefel uchel o wydnwch. Maent yn meithrin medrau annibyniaeth arbennig, er enghraifft wrth arllwys diodydd maethlon adeg byrbryd a morthwylio darn o iâ i ryddhau'r blodau. Mae bron bob un yn atgyfnerthu eu medrau annibynnol wrth dorri llysiau yn y caffi, golchi'r babi ac arllwys dŵr o'r tegell i'r sosban yn llwyddiannus. Maent yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd, gan dacluso a golchi dwylo yn rheolaidd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae bron bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd rhagorol o'u mannau cychwyn unigol.

Mae bron bob un yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau cyfathrebu yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn gwrando'n astud ar ymarferwyr a phlant eraill ac yn ymateb yn briodol i ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb cynyddol mewn llyfrau ac yn mwynhau darllen llyfrau ffeithiol, gan gynnwys rhai am y gofod, anifeiliaid gwyllt a rysetiau bwyd. Maent yn gwybod sut i drin llyfr fel darllenydd ac yn deall bod ystyr i'r geiriau a'r lluniau. Mae ychydig yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol ac eraill gyda'i gilydd, gan fwynhau siarad am y lluniau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth gynnar o eirfa Gymraeg. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn ymuno yn frwdfrydig gydag ystod eang o ganeuon a rhigymau. Mae ychydig yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol yn eu chwarae ac amser byrbryd, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau am yr hyn yr hoffent ei fwyta a'i yfed. Maent yn magu hyder ac yn arbrofi â defnyddio geirfa gyfarwydd yn eu brawddegau Saesneg wrth chwarae. Er enghraifft, wrth ymdrechu i ddefnyddio'r gair

Cymraeg wrth siarad â ffrind yn y caffi gan ddweud, “I haven’t got hufen iâ”. Mae’r rhan fwyaf o’r plant sy'n amharod i siarad pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad yn cael eu meithrin i ddatblygu eu hyder yn gyflym.

Mae bron bob plentyn yn defnyddio ystod eang o offer gyda hyder a gallu cynyddol i greu marciau. Maent yn gwneud cynnydd da iawn yn yr agwedd hon o’u dysgu. Er enghraifft, maent yn gwneud nodiadau ar lyfrau bach pwrpasol i gymryd archebion cwsmeriaid yn y caffi ac yn arbrofi â chreu marciau i gynrychioli eu henwau wrth beintio. Maent yn rheoli offer gyda medrau cydweithredu da.

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir yn eu chwarae ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, wrth lenwi cwpanau â thywod neu ddŵr, maent yn eu disgrifio fel llawn neu wag. Mae llawer o blant yn cyfrif i ddeg yn Gymraeg yn hyderus wrth guddio dinosoriaid a chau eu llygaid cyn chwilio, ac yn rhifo yn ôl o ddeg wrth lansio roced. Mae bron bob plentyn yn ymuno’n frwdfrydig ag amrywiaeth o ganeuon rhif a rhigymau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ystyried sut i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau i orffen tasgau yn dda. Er enghraifft, maent yn ceisio dulliau gwahanol wrth ymdrechu i dynhau sgriw yn y ffrâm ddringo ac yn chwilio am ffrind er mwyn trafod datrysiad. Mae bron bob un ohonynt yn datblygu medrau creadigol cryf. Maent yn arbrofi’n hyderus â thoes ac yn peintio ar gerrig yn annibynnol yn y caban crefft.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau corfforol yn eithriadol o dda. Maent yn defnyddio ystod o offer awyr agored yn fedrus i wella eu medrau cydlynu. Maent yn cydweithio’n dda wrth helpu i wthio ei gilydd ar y siglen teiar, wrth chwarae mynd yn ôl ac ymlaen o dan goesau ffrind, neu wrth redeg yn y parc cyfagos. Mae bron bob un yn datblygu eu medrau echddygol mân yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfatebu ffyn bach pren i dyllau neu fyseddi allweddi gwahanol i agor amrywiaeth o gloeon.

Trwy ddefnyddio ystod eang o offer, mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio tortshis yn fedrus i archwilio’r gofod yn y sied dywyll ac yn chwarae rôl gyda ffonau symudol er mwyn siarad â mam.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn gweithio'n arbennig o dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt wybodaeth ac ymwybyddiaeth arbennig o dda am bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i gadw plant yn ddiogel. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon diogelu. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Yn ogystal, maent yn cofnodi manylion am anghenion iechyd penodol plant unigol, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw feddyginiaethau, os bydd angen. Mae arweinwyr yn cadw cofnod presenoldeb cywir o ymarferwyr a phlant, a chofnod o ymwelwyr. Maent yn goruchwylio plant yn llwyddiannus iawn ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel i'r plant. Mae

trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd dyddiol i blant dreulio amser yn yr awyr agored, beth bynnag fo'r tywydd. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol, gan gynnwys darparu byrbryd a diodydd iach, ac yn sicrhau bod dŵr ar gael ar bob adeg. Mae ymarferwyr yn manteisio ar drefniadau priodol y lleoliad er mwyn ymdopi ag unrhyw alergeddau ac anafiadau.

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, adeiladol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus gydag ymdeimlad cryf o berthyn. Mae ymarferwyr yn siarad gyda phlant a gyda'i gilydd yn bwyllog ac yn barchus, gan gynnig esiampl ragorol o fedrau cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn modelu cwrteisi bonheddig wrth gynnig byrbryd iachus i'r plant, gan eu hannog i ymateb yn bositif gan efelychu'r cwrteisi wrth dderbyn eu bwyd. Mae ymarferwr yn dilyn polisi rheoli ymddygiad yn ardderchog, gan ddefnyddio technegau cadarnhaol er mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio 'dwylo caredig' er mwyn eu harwain i feddwl am eu ymddygiad, a hyn yn cael ei ufuddhau gan y plant. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin a hyrwyddo parch at eraill yn llwyddiannus tu hwnt.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion bob plentyn, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ganddynt trefniadau da iawn ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol, fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr. O ganlyniad, mae bob plentyn yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu datblygiad.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ymateb yn dda iawn i anghenion y plant. Maent yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol ar gyfer pob maes dysgu a datblygu. Maent yn chwarae'n hynod effeithiol â'r plant er mwyn cefnogi eu profiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn manteisio ar ddiddordeb plant yn y gofod ac wedi creu cornel dywyll lle mae'r plant a'r oedolion yn cyd-chwarae ac yn darganfod planedau, llwch lleuad ac olion traed yng ngoleuni tortsh yn llwyddiannus. Defnyddir amrywiaeth eang o adnoddau fel llyfrau, teganau ac adnoddau 'go iawn' i ymestyn ac atgyfnerthu geirfa Gymraeg. Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd caniatáu blant i barhau chwarae ac ymchwilio am gyfnodau estynedig pan fyddant wedi ymgolli  mewn gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn fedrus wrth gefnogi profiadau chwarae a chamau nesaf yn natblygiad y plant yn effeithiol iawn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu sydd o ansawdd uchel ac yn cyd-fynd â chyfnod datblygu plant yn dda. Maent yn ystyried diddordebau plant wrth gynllunio gweithgareddau newydd, ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddychwelyd i ardaloedd er mwyn ymarfer eu medrau. Mae'r

ddarpariaeth yn annog plant i fod yn chwilfrydig a brwdfrydig mewn ardaloedd dysgu a chwarae sy'n cynnig cefnogaeth a her addas i blant ar bob cam o'u datblygiad. Maent yn sicrhau cyfleodd buddiol i ddatblygu medrau rhifedd a chyfathrebu y plant mewn modd naturiol o fewn ardaloedd sy'n llawn adnoddau pwrpasol ac amrywiol. Er enghraifft, cyfleoedd amhrisiadawy i drafod rhif a marcio wrth gymryd archeb yn y caffi. Mae ymarferwyr yn cynllunio amgylchedd dysgu cyffrous ac ysgogol dan do ac awyr agored sy'n caniatáu i blant wneud dewisiadau am y lle maent yn dymuno dysgu ynddo.

Nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth yw ansawdd y berthynas waith rhwng ymarferwyr a phlant. Maent yn cefnogi dysgu plant trwy chwarae ochr yn ochr â nhw. Mae ymarferwyr yn modelu ymddygiad yn effeithiol iawn ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran medrau cymdeithasol y plant. Maent yn atgoffa'r plant yn gyson o sut i feithrin perthynas a sut i fod yn ffrind da. O ganlyniad, mae'r plant yn cydweithio'n hynod fedrus ac yn datblygu medrau rhyngberthnasol aeddfed. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol  y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar onestrwydd, tegwch, parch ac yn sicrhau bod plant yn deall yr angen iddynt drin ei gilydd, eu hamgylchedd a'u hadnoddau yn ofalus.

Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd i sefyll yn ôl ac arsylwi a phryd i ymyrryd i ddatblygu medrau'r plant. Mae hyn yn creu awyrgylch waith byrlymus lle mae plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymgolli yn eu chwarae a'u dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd i ddysgu sy'n manteisio ar ddiddordebau'r plant yn llwyddiannus ac yn eu hannog i fentro a rhoi cynnig ar bethau newydd. Ar y cyfan mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ymateb drwy holi priodol. Yn yr arfer orau, mae'r ymarferydd yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i annog plant i feddwl drostynt eu hunain, er enghraifft trwy ofyn iddynt sut gallai ofodwr gyrraedd y lleuad. Er hyn, yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn tueddu defnyddio cwestiynau caeedig sy'n cyfyngu ar allu'r plant i feddwl yn ehangach.

Nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth yw gallu'r ymarferwyr i ddilyn trywydd dysgu'r plant ar y pryd, gan adael i'r plant arwain eu dysgu eu hunain. Maent yn defnyddio diddordebau'r plant yn llwyddiannus fel ysbrydoliaeth i feithrin dychymyg, annog chwilfrydedd ac ymestyn eu medrau mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r brwdfrydedd a esblygodd yn dilyn awch a rhyfeddod plentyn wrth ddarganfod ŵy dinosor yn y tywod. Fe wnaeth hyn arwain at fwrlwm heintus, gyda'r plant yn ymchwilio ymhellach o fewn dim amser i ddarganfod dinosoriaid o amgylch y lleoliad, gan ddefnyddio binocwlars a recordydd fideo i ffilmio'r digwyddiad.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau â'r ardal leol ac yn croesawu ymwelwyr yn rheolaidd. Mae'r profiadau hyn yn datblygu gwybodaeth plant am eu hardal a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae ymweliadau gan arddwr lleol i gefnogi dealltwriaeth y plant o sut i ofalu am blanhigion wedi arwain at frwdfrydedd i blannu a thyfu llysiau a blodau. Mae'r amgylchedd awyr agored yn darparu nifer o gyfleoedd ardderchog i blant ddatblygu ymdeimlad o awch a rhyfeddod am natur. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddathlu gwahanol arferion a chredoau, yn ogystal â dysgu am fywydau eraill trwy sefydlu ardaloedd pwrpasol ar

gyfer darganfod mwy am wledydd megis Mecsico. Maent hefyd yn dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru trwy gynllunio gweithgareddau i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall plant ei wneud. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac yn adnabod eu hanghenion a'u cryfderau unigol yn dda iawn. Trwy arsylwadau ac asesiadau parhaus, maent yn nodi'n effeithiol lle mae angen cymorth neu her ychwanegol ar blant.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu cyfoethog i blant. Mae amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr a heriol iddynt ddatblygu ystod eang o fedrau, yn enwedig eu hannibyniaeth a'u medrau datrys problemau. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn trefnu ardaloedd chwarae sy'n ysgogi chwilfrydedd plant ac yn eu hannog i ymchwilio ac arbrofi yn llwyddiannus. Maent yn darparu amgylchedd cynnes a chyfeillgar sy'n cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn. Mae arweinwyr wedi creu ymdeimlad cryf iawn o berthyn. Mae yma ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan di-dor sy'n galluogi'r plant i symud o gwmpas yn hollol annibynnol.

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant yn barhaus. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith sy'n sicrhau bod peryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol iawn. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes peryglon amlwg yn bodoli.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd uchel. Maent yn eu gosod mewn modd sy'n galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb gefnogaeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau a deunyddiau naturiol 'go iawn' sy'n datblygu dychymyg a chwilfrydedd y plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, maent yn rhewi blodau go iawn mewn blociau iâ er mwyn annog y plant i arbrofi ag offer gwahanol i'w cael nhw allan. Mae'r ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd pwrpasol a chyffrous sy'n sbarduno'r plant i archwilio a datblygu eu creadigrwydd yn effeithiol. Yn ddiweddar, maent wedi addasu sied yn yr ardal allanol i gynrychioli'r gofod gan fod rhai o'r plant yn dangos diddordeb yn y planedau. Mae hyn yn ysbrydoli plant i fod yn chwilfrydig ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu medrau mathemategol, llythrennedd, corfforol a chymdeithasol y plant. Yn ogystal, maent yn gosod llyfrau addas yn yr ardaloedd sy'n dal sylw ac yn cefnogi datblygiad y plant yn effeithiol.

Mae'r sylw a'r gofal mae ymarferwyr yn ei roi wrth greu ardaloedd yn yr ardal allanol i gynnal lles y plant yn rhagorol. Maent yn darparu ystod ardderchog o adnoddau sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol a'r byd ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, gwisgoedd o ddiwylliannau eraill ar gyfer chwarae rôl, llyfrau am grefyddau gwahanol, a doliau a phypedau aml-gyfrwng yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan i gyfoethogi'r chwarae. Maent wedi creu ardal chwarae rôl Mecsicanaidd sy'n cael ei newid yn rheolaidd, gan greu ymdeimlad o fod mewn gwlad neu

ddiwylliant gwahanol yn rhagorol. Maent yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o ddathliadau gwahanol yn dda.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn llwyddo i greu ethos gofalgar a chyfeillgar lle mae plant yn ffynnu ac yn cyrraedd eu potensial. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy’n rhoi blaenoriaeth amlwg i les plant. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn anelu at ddarparu lefelau uchel o ofal a chymorth i bob plentyn. Mae ffocws clir yn cael ei roi ar blant yn arwain eu chwarae a'u dysgu mewn amgylchedd symbylus a chefnogol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o’u hunain ac eraill ac maent yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd fywyd a gwaith y lleoliad. Maent yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn gyson ac yn sicrhau eu bod yn cynnal safonau uchel iawn. Mae arweinwyr yn ystyried effaith tlodi ar les plant yn dda a rhannu adnoddau megis gwisg y lleoliad, yn ogystal â chyfrannu at fanc bwyd a chyfnewid teganau adeg y Nadolig. Mae arweinwyr yn adolygu ac yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella'r lleoliad yn gynhwysfawr ac yn effeithiol. Maent wedi’u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol, ac yn nodi'n glir y cryfderau a’r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau cyson â’r ymarferwyr sy’n sicrhau eu bod yn cyfrannu at bob elfen o fywyd y lleoliad a bod ganddynt lais cryf yn ei ddatblygiad. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn effeithiol iawn, gan sicrhau bod ymarferwyr yn nodi’r effaith y mae'r cynblluniau yn ei chael ar ddeilliannau a lles y plant.

Un o gryfderau penodol y lleoliad yw ansawdd y gwaith tîm a’r cydweithio cryf ymhlith ymarferwyr ac arweinwyr. Mae’r ymarferwyr wedi ymrwymo i ddysgu proffesiynol parhaus. Maent yn gweithio’n ddiwyd i sicrhau dealltwriaeth gadan o’r ymchwil diweddaraf ac yn barod i addasu ac arbrofi â’u dulliau dysgu er mwyn cynnig gwasanaeth o’r radd orau i’r plant. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ymarferwyr ddatblygu eu dealltwriaeth a’u medrau trwy fynychu hyfforddiant ar y cyd. Mae hyn yn sicrhau bod dulliau addysgu'r staff yn gyson, a bod ansawdd uchel o ryngweithio proffesiynol yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Mae’r arweinwyr yn annog ymarferwyr i fyfyrio ac i weithredu ar yr hyn maent wedi ei ddysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at sicrhau safonau uchel o les ymhlith y staff a’r plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau effeithiol iawn sydd o fudd i'r plant. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â rhieni ac maent yn rhannu gwybodaeth berthnasol am ddiwrnod eu plentyn trwy ap cyfrifiadur. Mae’r berthynas agored yn sicrhau bod rhieni yn gyfforddus yn siarad â’r arweinwyr sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at sicrhau bod plant yn hapus ac yn setlo'n dda. Maent yn trefnu cyfarfod adolygu gyda rhieni ychydig wythnosau ar ôl i blentyn ddechrau yn y lleoliad, sy'n sicrhau bod gwybodaeth werthfawr yn cael ei rhannu a bod ymarferwyr yn ymwybodol o ddiddordebau’r plant. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i gynorthwyo trefniadau pontio. Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i’r ygolion sy’n gwella adnabyddiaeth athrawon o’r plant cyn iddynt ddechrau. Mae'r

lleoliad yn elwa o gysylltiadau agos â'r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr i blant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2024